Cynhadledd: Caffael Cynaliadwy yn y Sector Cyhoeddus, Canolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd, 23 Mawrth 2007

Adroddiad gweithdy

Adeiladu cadwynau cyflenwi cynaliadwy: ffrwythau a llysiau

Cadeirydd: **Kevin Thomas,** Rhwydwaith Garddwriaeth Cymru

Siaradodd Anne Evans, Blaencamel ar ran grŵp o dyfwyr sy'n cyflenwi'r cwmni Organic Fresh Food. Mae Anne a'i phartner wedi bod yn tyfu llysiau organig ym Mlaencamel ers dros 30 mlynedd ac mae eu hymwneud â'r sector gyhoeddus yn cynyddu, maent hefyd yn enghreifftio cynaladwyedd:

- *Cynhyrchu cynaliadwy:* mae compostio yn ganolog i'r cynhyrchu ym Mlaencamel, gan drosi 'gwastraff' yn gynnyrch defnyddiol a hefyd i ddal y carbon, sy'n golygu bod Blaencamel mewn gwirionedd yn fusnes carbon negatif.
- *Bioamrywiaeth:* Mae'r fferm yn cynnal cynefinoedd coetir, afon a glaswelltir cyfoethog.
- *Addysg:* Maent wedi gweithio gydag ysgolion lleol ers llawer blwyddyn. Rhoddir croeso i'r cyhoedd i fynd ar y tir.

Dywedodd **Alan Aitken** o Gyngor Sir Caerfyrddin eu bod wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r cyflenwr rheng gyntaf a busnesau lleol i gael mwy o'u cynnyrch o ffynonellau lleol. Ei brif bwyntiau oedd:

- Ariannu yw'r cyfyngiad allweddol. Am bob codiad o 1 geiniog yng nghost pryd ysgol, mae'n rhaid dod o hyd i £35,000 ychwanegol.
- Bellach ceir llawer mwy o bwysau ar gyrff y sector gyhoeddus i fod yn agored ynghylch sut mae'r broses caffael yn gweithio.
- Mae angen ar i staff caffael ennill gwell ddealltwriaeth o'r gadwyn gyflenwi, a siarad yn uniongyrchol gyda'r tyfwyr.
- Dylid ailasesu cadwynau cyflenwi yng ngoleuni pryderon fel 'milltiroedd bwyd' a chynnydd mewn prisiau olew.
- Mae arnom angen ffyrdd o feintioli buddion ar wahân i'r rhai economaidd, e.e. allyriadau carbon isel a milltiroedd bwyd.
- Dylid seilio 'ansawdd' ar faeth, ac nid ar fanylebau archfarchnad sy'n dueddol o fod yn gosmetig. Gellid llunio manylebau newydd mewn ymgynghoriad gyda'r tyfwyr.

Trafodaeth

- *Ariannu* Roedd y buddion o gaffaeliad lleol a chynaliadwy yn cael eu cydnabod yn fwy cyffredinol. Er hynny, mae'n rhaid i'r arian ddod o rywle. Mae'n rhaid i ni wneud llawer mwy i feintioli buddion caffaeliad cynaliadwy cyn y gellir dwyn neges gredadwy at yr Adran Iechyd er enghraifft, a gofyn am sleisen o'u cyllideb.
- *Materion cadwyn cyflenwi:* Cynigia cynhyrchwyr rai awgrymiadau i gynyddu cyfranogiad cyflenwyr lleol gan gynnwys:
    - Gosod contractau yn uniongyrchol gyda'r cynhyrchwyr ar gyfer cnydau cyfeintiau mwy (e.e. tatws), gyda'r cyflenwr rheng gyntaf yn cyflenwi'r eitemau eraill.
    - Mae'n rhaid i Gynghorau Sir ddatgan beth yw eu hanghenion o leiaf blwyddyn o flaen llaw – gan fod llysiau yn cymryd amser i dyfu!
    - Gallai bod modd i weithio'r ffordd arall hefyd, h.y. gallai'r tyfwyr ddweud wrth y Cyngor beth sydd ar gael ar adegau gwahanol o'r flwyddyn.
    - Gellid symleiddio contractau caffael er mwyn cynyddu cyfranogiad gan dyfwyr llai.
- *Addysg:* Dylid annog plant i fod yn gyfrannog mewn cynhyrchu bwyd a dysgu coginio o oedran cynnar.